Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Plant Bach Sarn

**Canolfan Dysgu Gydol Oes Sarn**
**Merfield Close**
**Sarn**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 9SW**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Plant Bach Sarn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Plant Bach Sarn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Moira Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Caron Rhiannon Harris |
| Person â gofal | Caron Rhiannon Harries |
| Nifer y lleoedd | 22 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.20 a.m – 1.05 p.m Dydd Llun i Ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Medi 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 26/09/2024 |
| Plant yn derbyn addysg o Ionawr ymlaen. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | * |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cynyddu'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau digidol

A2 Sicrhau bod cynlluniau'n canolbwyntio ar adnabod y camau nesaf yn natblygiad medrau'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau annibynnol wrth ddethol y gweithgareddau, y profiadau a'r ardaloedd lle hoffent fynd i chwarae. Mae bron bob un yn cyrraedd yn hapus a chânt eu cyfarch yn gynnes gan yr ymarferwyr. Mae plant yn cael mynediad at holl adnoddau'r lleoliad yn annibynnol yn syth ar ôl cyrraedd. Er enghraifft, gallant fynd at y llyfrau, yr offer adeiladu neu at deganau sy'n apelio atynt. Mae'r plant yn cael cefnogaeth gan ymarferwyr wrth iddynt chwarae, a rhoddir cyfleoedd defnyddiol iddynt ddatgan eu barn a'u teimladau. Er enghraifft, mae'r plant yn penderfynu p'un ai i gymryd rhan mewn gweithgaredd yn yr ardal fewnol neu ddewis chwarae yn yr ardal allanol.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr gan deimlo'n ddiogel. Mae llawer yn aros yn gyffrous gan eu bod yn awyddus i gael mynediad i'r lleoliad. Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd, ymarferwyr ac ymwelwyr ac yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau cymdeithasol trwy sgwrsio a thrafod wrth chwarae.

Mae bron bob plentyn yn parchu teimladau a diddordebau plant eraill ac yn dysgu cymryd tro. Er enghraifft, maent yn defnyddio amserydd tywod er mwyn i bawb gael mynediad teg at wahanol offer poblogaidd. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth sgwrsio a rhannu diddordebau a syniadau gyda'r ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft wrth gydweithio i adeiladu tŵr yn yr ardal blociau neu wrth greu trac i'r trên.

Mae’r plant wedi datblygu perthynas agos a chynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n aeddfed ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfforddus i ofyn i’r ymarferwyr am gymorth neu i egluro rhywbeth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos brwdfrydedd yn eu chwarae ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Maent yn gyfarwydd iawn â threfn y diwrnod, fel byrbryd, amser cofrestru ac amser ymarfer corff. Maent yn llwyddo i ddyfalbarhau â thasgau, ac mae llawer yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol. Er enghraifft, mae rhai yn mwynhau gweithgareddau gyda’r clai tra mae eraill yn chwarae gyda cheir maent yn eu rheoli’n ddigidol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda yn unol â'u hoedran ac yn cyd-chwarae’n gymdeithasol. Maent yn cael eu hannog i fod yn annibynnol yn ôl eu hoedran. Er enghraifft, wrth ddewis pa adnoddau i'w defnyddio, dewisiadau amser byrbryd a pha weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o’u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ac maent yn diweddaru eu hyfforddiant mewn modd amserol. Maent yn gwneud defnydd o ffurflenni pwrpasol i rannu eu sylwadau a'u pryderon, gan gynnwys anafiadau a adroddwyd gan rieni. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch o'r amgylchedd mewnol a'r offer allanol yn cael eu cwblhau yn ddyddiol. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol ac yn llwyddiannus. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn drylwyr. Ar hyn o bryd, nid yw damweiniau sy'n digwydd o fewn y lleoliad yn cael eu dadansoddi'n ffurfiol a rheolaidd. Er nad yw’r lleoliad yn gweinyddu meddyginiaeth yn rheolaidd, mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran ei gweinyddu a’i chadw’n ddiogel. Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol, sy’n eu galluogi i ddarparu byrbrydau iach ar gyfer y plant. ac mae gweithdrefnau paratoi bwyd yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus, gan annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ddyddiol

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau urddas a phreifatrwydd plant wrth ddilyn y polisi newid cewynnau a chedwir cofnodion pwrpasol, gan gynnwys cofnodion i rieni. Maent yn dilyn polisi’r lleoliad ar ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol ac yn sicrhau bod plant yn cadw o fewn ffiniau a disgwyliadau. Er enghraifft, maent yn atgoffa’r plant am bwysigrwydd peidio â rhedeg yn y prif adeilad. Mae gan y ddarpariaeth gofrestr presenoldeb bwrpasol ar gyfer plant ac ymarferwyr.

Mae gan ymarferwyr berthynas gynnes a naturiol â'r plant ac maent bob amser yn eu trin yn fedrus a chyda pharch. Maent yn garedig ac mae sgyrsiau rheolaidd yn cael eu clywed rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ymddwyn yn briodol ac yn eu dysgu i rannu, aros a chymryd tro. Maent yn canmol y plant yn gyson, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau, eu dealltwriaeth o arferion a'u hunanhyder. Yn ystod amser byrbryd, caiff plant gyfleoedd i gymdeithasu ac mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amser hwn fel cyfle i ryngweithio â phlant gan trafod eu hoffterau a'u diddordebau.

Mae gan yr ymarferwyr weithdrefnau priodol ar gyfer nodi anghenion a diddordebau'r plant. Maent yn arsylwi ar blant ac yn cofnodi sylwadau yn fuddiol. Er enghraifft, maent yn cyfeirio at blentyn sy'n dod i adnabod gwahanol liwiau neu siapau, neu pan mae plentyn yn dangos empathi tuag at ffrind sy'n teimlo'n drist.

Maent yn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus trwy gysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol, gan gynnwys defnyddio canllawiau'r awdurdod lleol ar y cyd â rhieni.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu fel gweithwyr allweddol ar gyfer grŵp o blant. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddod i adnabod y plant yn dda iawn ac maent yn cofnodi digwyddiadau allweddol yn natblygiad pob plentyn ac yn rhannu'r datblygiadau hyn gyda'r tîm. Mae hyn yn galluogi'r holl ymarferwyr i ymateb yn effeithiol i anghenion pob unigolyn yn llwyddiannus.

Drwy gynnig adnoddau pwrpasol, mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddenu sylw plant i amrywiaeth o weithgareddau pwrpasol er mwyn datblygu eu medrau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ddefnyddio'r cerbydau adeiladu i symud cerrig bach i'r gegin fwd.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd a'u medrau datrys problemau gan fodelu'r Gymraeg yn dda. Maent yn ailadrodd geiriau a brawddegau syml yn gyson. Mae llyfrau perthnasol ar gael ar gyfer y plant ar draws gwahanol ardaloedd y ddarpariaeth sy'n adlewyrchu'r ardal maent wedi eu lleoli ynddi. Mae'r ymarferwyr yn darllen straeon yn rheolaidd ac yn gofyn cwestiynau i hybu dealltwriaeth y plant o'r stori. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi medrau rhifedd y plant yn dda. Er enghraifft, wrth wrando ar stori Elfed, mae ymarferydd yn tynnu sylw at liwiau Elfed ac yn annog y plant i rifo gwrthrychau i fyny at 8 yn y stori.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn dda iawn. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd cyfrifoldeb ac i ddatblygu dealltwriaeth o gydweithredu a chyd-chwarae ag eraill. Er enghraifft, drwy ddefnyddio amserydd tywod, mae'r plant yn rhannu teganau megis car digidol heb unrhyw wrthdaro. Mae'r ymarferwyr yn modelu caredigrwydd ac amynedd gan roi clod yn gyson i'r plant. Er enghraifft, maent yn arddangos pump uchel neu'n defnyddio stampiwr i osod llun bach ar ddwylo'r plant.

Mae’r ymarferwyr yn ymyrryd yn ddoeth yn ystod gweithgareddau’r plant ac yn caniatáu digon o annibyniaeth iddynt. O ganlyniad, mae’r plant yn chwarae a dysgu’n annibynnol am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu hyder a rheoli risg pan fyddant yn dringo ar y ffrâm ddringo a cherdded ar hyd y trawstiau pren.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant yn gadarn. Maent yn darparu amrediad effeithiol o offer sy’n caniatáu i’r plant ddatblygu cydbwysedd corfforol. O ganlyniad, maent wrth eu boddau’n rolio, cicio a thaflu amrywiaeth o beli i mewn ac allan o’r twnel ac i mewn i’r bwced mawr du. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd i’r plant ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn eu hannog i arbrofi â phinau ffelt, sialc a chlai.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i’r plant ddatblygu eu medrau digidol, er enghraifft wrth annog eu medrau cyfathrebu trwy ddefnyddio ffonau symudol bychain. Er hyn, nid yw’r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau digidol wedi eu datblygu’n ddigonol.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r lleoliad wedi'i leoli o fewn adeilad aml-bwrpas ac mae'n ofynnol i ymwelwyr gael eu cyfarch gan staff cyn cael mynediad i unrhyw ystafell. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr o bresenoldeb y  plant a’r ymarferwyr sy'n nodi amseroedd cyrraedd a gadael.

Mae ymarferwyr yn cadw pob cofnod sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle ac mae'r rhain ar gael ar gais. Mae cofnodion cynnal a chadw adeiladau yn gyfredol ac mae arweinwyr yn cwblhau driliau tân yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad a'r offer diogelu yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae arweinwyr wedi datblygu asesiadau risg pwrpasol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ar gyfer y plant. Mae'r lleoliad yn sicrhau diogelwch, ac yn bwrpasol ar gyfer  nifer y plant sy'n mynychu. Mae gan y lleoliad doiledau addas a chyfleusterau newid cewynnau sy'n sicrhau parch ac urddas i blant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu mynediad rhwydd i blant chwarae yn yr ardaloedd mewnol ac allanol. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd amrywiol i blant ddysgu a datblygu. Mae'r adnoddau'n cynnwys cwrs rhwystrau bach, offer dringo a chegin chwarae. Mae'r ardal hefyd yn darparu heriau a chyfleoedd i blant gymryd risgiau sy’n briodol i’w hoedran. Er enghraifft, mae'r ffrâm ddringo allanol yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol wrth ddringo. Fe'u hanogir i adeiladu gyda’r blociau, mynd ar y beiciau, ynghyd â defnyddio’r adnoddau naturiol a’r adnoddau ailgylchu sydd y tu allan.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y dodrefn, yr offer a'r adnoddau amrywiol o safon dda. Mae'r dodrefn ar gyfer y plant yn cynnwys cadeiriau a byrddau priodol, cadeiriau esmwyth isel ynghyd ag offer tŷ. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddysgu drwy ddefnyddio ystod eang o adnoddau, gan gynnwys adnoddau celf, chwarae ròl a chlai.

Mae arweinwyr yn darparu offer o ddeunyddiau naturiol, megis celfi pren a deunyddiau wedi’u hailgylchu, sy’n galluogi’r plant i arbrofi â gwahanol ddeunyddiau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn creu ethos cefnogol amlwg yn y lleoliad lle mae'r plant a'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn sicrhau bod trefniadau dyddiol yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau. Er enghraifft, mae arweinwyr yn sicrhau bod gan ymarferwyr gyfle i gynnig syniadau wrth gynllunio profiadau dysgu a chwarae ar gyfer y plant. Er hyn, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod cynlluniau'n canolbwyntio'n ddigon effeithiol ar adnabod y camau nesaf yn natblygiad medrau'r plant.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac mae'r gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau'n briodol. Maent yn adolygu eu polisïau yn flynyddol ac yn eu gweithredu'n ymarferol yn y lleoliad yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac mae lles bob plentyn wrth wraidd popeth. O ganlyniad, mae bob plentyn yn hapus ac yn gyffrous i fynychu.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn onest iawn. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r mudiadau cefnogi. Maent yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ddealltwriaeth dda o'r meysydd i'w datblygu ac o'u cryfderau. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio ag asiantaethau allanol ac yn gofyn cyngor ynglŷn â datblygiad plant er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau rhaglen o hyfforddiant pwrpasol ar gyfer yr ymarferwyr. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cael cefnogaeth a hyfforddiant gan fudiadau cefnogi ar gyfer datblygu eu medrau Cymraeg ymhellach. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gynyddol hyderus pan fyddant yn modelu'r Gymraeg gyda'r plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o grantiau ac yn archebu adnoddau pwrpasol i hybu medrau'r plant. Er enghraifft, maent wedi archebu ffrâm ddringo i'r ardal allanol i ddiwallu anghenion grŵp o blant oedd yn hoff iawn o ddringo. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gryf â'r rhieni. Maent yn cyfathrebu trwy sgyrsiau rheolaidd ar ddechrau a diwedd y sesiwn. Mae bwrdd cyfathrebu i'r rhieni yn y dderbynfa yn arddangos gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys lluniau ac enwau'r ymarferwyr yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol a pholisïau'r lleoliad. Maent hefyd yn gwneud defnydd da o dudalen gymdeithasol gaeedig i hysbysu rhieni am weithgareddau wythnosol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/11/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 17 | Within 28 days of receiving a request for an assessment of the service, the registered person must supply to the appropriate office the assessment in the form required. | Cyflawnwyd |
| 28 | The responsible individual failed to ensure that all required suitability checks on staff employed have been carried out prior to appointment at the setting. | Cyflawnwyd |
| 31 | The registered person must notify CIW (via their online account) of any significant events, including staff changes. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/11/2024